



# Pecyn i Ymgeiswyr

Pwyllgor Safonau Addysg  
a Hyfforddiant Cymru

Penodi'r Cadeirydd

## **GWYBODAETH I YMGEISWYR**

### **1. CEFNDIR**

Asiantaeth Ieuentid Cymru sefydlodd Bwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru ym 1994. Ar ôl cyfnod byr yn rhan o Lywodraeth y Cynulliad gan fod yr asiantaeth wedi'i throsglwyddo i'r sefydliad hwnnw, mae'r pwyllgor yn gweithio o dan adain Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) bellach ac yn cael arian o du Llywodraeth Cymru am agweddau ar ei waith. Ei brif orchwyl yw cymeradwyo o safbwynt proffesiynol gyrsiau hyfforddi dechreuol sy'n arwain at statws gweithiwr ieuentid a chymunedol cymwysedig. Mae'n cyflawni'r un rôl ym meysydd datblygu cymunedol a gwaith chwarae hefyd, pan fo gwahoddiad ac arian i wneud hynny.

Mae'r pwyllgor wedi'i sefydlu i gyflawni cyfrifoldebau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ôl amodau memorandwm dealltwriaeth yr ymrwymodd iddo yn 2010 gyda'r Cydgynghor Negodi dros Weithwyr Ieuentid a Chymunedol.

Mae aelodau'r pwyllgor yn cynrychioli pob sector perthnasol (addysg ffurfiol ac anffurfiol, gwaith ieuentid a chymunedol, datblygu cymunedol, gwaith chwarae). Mae rhagor o wybodaeth yn y papurau sydd wedi'u hatodi – [amodau gorchwyl y pwyllgor a memorandwm y ddealltwriaeth.](#)

### **2. RÔL Y PWYLLGOR - DIBEN**

2.1 Mae diben ETS Cymru wedi'i ddisgrifio ym memorandwm y ddealltwriaeth rhwng WLGA a'r Cydbwyllgor Negodi dros Weithwyr Ieuentid a Chymuned. Bydd yn gyfrifol am gymeradwyo ac achredu gwaith ieuentid a diogelu ei ansawdd yn y sectorau gwirfoddol, annibynnol a gwladol (awdurdodau lleol) trwy annog cyrff priodol i ofyn i'w harferion gael eu hadolygu a'u cydnabod yn ôl gofynion y Cydbwyllgor Negodi. At hynny, mae ETS Cymru yn parhau i roi cymorth i sectorau gwaith chwarae a datblygu cymunedol y wlad yn ôl y telerau y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru yn 2006.

### **3. SWYDDOGAETHAU**

3.1 Mae'r swyddogaethau isod yn ymwneud â gwaith ieuentid ond, yn unol â'r diben sydd wedi'i ddisgrifio uchod, bydd ETS Cymru yn parhau i gynorthwyo sectorau gwaith chwarae a datblygu cymunedol i gyflawni swyddogaethau tebyg yn y meysydd hynny ar yr amod bod adnoddau ar gael.

3.2 Cymeradwyo ansawdd proffesiynol:

- cyrsiau a rhaglenni hyfforddi sylfaenol sy'n arwain at gymhwyster proffesiynol;

## **Pwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru**

- cyrsiau a rhaglenni hyfforddi ar ôl ymgymhwyso;
  - cynlluniau achredu a dilysu hyfforddiant ymgymhwyso amser llawn a rhan-amser yn y sectorau gwirfoddol, annibynnol a gwladol.
- 3.3 Cymorth a chynghorion ynglŷn â llunio:
- strategaethau datblygu gweithluoedd a fframweithiau datblygu proffesiynol parhaus cyrff annibynnol, mudiadau gwirfoddol ac awdurdodau lleol;
  - polisiau a gweithdrefnau diogelu ansawdd cyrff annibynnol, mudiadau gwirfoddol ac awdurdodau lleol;
  - datganiadau am gwrícwlm, gwerthoedd a safonau proffesiynol y sector;
  - cyrsiau cymwysterau goruchwyllo i athrawon gwaith maes.
- 3.4 Paratoi, lledaenu ac adolygu meini prawf, canllawiau a gweithdrefnau ar gyfer cymeradwyo ac achredu.
- 3.5 Sefydlu a defnyddio gweithgorau i archwilio ac asesu cynigion ac arferion asiantaethau sy'n gofyn am gymeradwyo neu achredu.
- 3.6 Helpu i gyflawni gwaith fel y bydd modd trosglwyddo cymwysterau cyfatebol ledled y Deyrnas Gyfunol ac Iwerddon, yn ogystal â chynghori Llywodraeth Cymru am faterion o'r fath yn ôl yr angen.
- 3.7 Helpu i gyflawni gwaith fel y bydd modd trosglwyddo cymwysterau cyfatebol ledled y byd, yn ogystal â chynghori Llywodraeth Cymru am faterion o'r fath yn ôl yr angen.
- 3.8 Sbarduno datblygiadau (ac ymateb i ddatblygiadau, hefyd) o ran safonau, cydnabyddiaeth a darpariaeth gwaith ieuentid – yn ogystal â chynghori Llywodraeth Cymru, Cyngor Gweithlu Addysg a chyrrff perthnasol eraill yn ôl yr angen.

## **4. DISGRIFIAD O'R RÔL**

Mae rôl y cadeirydd yn ymwneud â thrin a thrafod gweithdrefnau cymeradwyo proffesiynol a gweithdrefnau adolygu trwy gymheiriaid ynglŷn ag addysgu a hyfforddi gweithwyr ieuentid, gweithwyr datblygu cymunedol a gweithwyr chwarae ('y sector' o hyn ymlaen). Rhaid i'r cadeirydd ofalu bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cyflawni ei chyfrifoldebau yn ôl memorandwm ei dealltwriaeth gyda'r Cydgyngor Negodi dros Weithwyr Ieuentid a Chymunedol. Bydd angen cadw annibyniaeth arferion gweithio'r pwyllgor, mireinio'r syniad o Lwybr Cydlynol Cymru ar gyfer y sector a hybu'r syniad o adolygu trwy gyfrwng cymheiriaid. At hynny, bydd angen cymryd rhan flaengar yn y prosesau priodol i gynnal statws y pwyllgor yn un statudol ac annibynnol fel sydd wedi'i nodi yn yr wybodaeth gefndirol uchod.

## **Pwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru**

### **5. GOFYNION Y SWYDD**

#### **Nodweddion hanfodol**

- a) Adnabod sectorau addysg ffurfiol ac anffurfiol, yn arbennig addysg uwch.
- b) Cymhwyster proffesiynol cydnabyddedig ynglŷn â naill ai addysg ffurfiol / anffurfiol neu waith ieuenctid a chymunedol.
- c) Gallu cyfathrebu'n effeithiol, derbyn a dadansoddi gwybodaeth yn gyflym a chymryd camau priodol o ganlyniad.
- d) Gwybod sut mae asiantaethau hyfforddi proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r sector yn achredu ac yn dilysu eu cymwysterau.
- e) Arbenigedd ym maes ffurfio proffesiynol, datblygu proffesiynol parhaus a chynllunio ar gyfer datblygu gweithlu.
- f) Gallu trin a thrafod amrywiaeth helaeth o faterion cymhleth yn strategol.
- g) Deall cydraddoldeb yn eglur, gan ymroi i'w hyrwyddo a herio arferion sy'n anffafrio pobl.
- h) Deall 'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus' Pwyllgor Nolan yn eglur ac ymroi i gadw atyn nhw.

#### **Nodweddion defnyddiol**

- a) Profiad o reoli'n strategol yn y sector, naill ai ym myd llywodraeth leol neu yn y sector gwirfoddol.
- b) Cymhwyster ar ôl graddio ynglŷn â'r sector, a gwybodaeth am fwy nag un sector.
- c) Gallu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- d) Profiad o weithio ar lefel uwch mewn sefydliad hyfforddiant perthnasol.

### **6. SWYDD-DDISGRIFIAD**

#### **1. Hwyluso datblygiad proffesiynol yn y sector drwy gynnal a / neu sicrhau:**

- 1.1 tri chyfarfod Pwyllgor ETS Cymru bob blwyddyn. Cyfrifoldeb y Cadeirydd yw rheoli cyfarfodydd Pwyllgor yn y fath fodd fel bod safbwyntiau'r sector i'w clywed yn glir ac aelodau'n cael eu hannog i gymryd rhan lawn yn y trafodaethau.
- 1.2 panelau arbenigol a phanelau ardystio ac achredu
- 1.3 presenoldeb mewn cyfarfodydd o Fforwm ETS y DU ac Iwerddon (cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn yn cynnwys pwyllgorau cyfwerth o Loegr, yr Alban, Iwerddon a Gogledd Iwerddon), a chyfarfodydd eraill yn ôl yr angen, yn enwedig y rhai hynny sy'n ymwneud a datblygiad gweithlu'r sector yng Nghymru.
- 1.4 recriwtio a dethol aelodau o Bwyllgor ETS Cymru.
- 1.5 darllen, gwerthuso a dosrannu testunau sy'n berthnasol i'r sector

## **Pwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru**

### **2. Cefnogi Asiantaethau Hyfforddi yn y sector drwy gynnal a / neu sicrhau:**

- 2.1 y canllawiau priodol
- 2.2 arweiniad a chefnogaeth unigol yn ôl yr angen
- 2.3 coladu ac adolygu data cysylltiedig â rheoli ansawdd yn y sector (yn cynnwys recriwtio, dethol, cyrhaeddiad, cadw a lleoli gweithwyr ieuenctid newydd gymhwyso) a chyhoeddi'r adroddiadau.
- 2.4 sefydlu'r gweithdrefnau adolygu cyfoedion priodol yn dilyn cyflwyniad gwybodaeth gan gyrff cymwys

### **3. Cefnogi Cyflogwyr yn y sector drwy gynnal a / neu sicrhau:**

- 3.1 canllawiau priodol yn ymwneud â chynllunio datblygiad y gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus
- 3.2 darpariaeth arweiniad a chefnogaeth priodol yn ôl yr angen
- 3.3 coladu ac adolygu data cysylltiedig â Chynllunio Datblygiad y Gweithlu.
- 3.4 cychwyn gweithdrefnau adolygu cyfoedion ac achredu

### **4. Cefnogi Gweithwyr a gwirfoddolwyr o fewn y sector drwy:**

- 4.1 hyrwyddo datblygiad proffesiynol yn y sector
- 4.2 darparu llwybrau ar gyfer symud tuag at gydnabyddiaeth broffesiynol ar gyfer unigolion gyda'r cymwysterau priodol a gafwyd y tu allan i'r DU ac Iwerddon (cydnabyddiaeth unigol).

### **5. Hyrwyddo perthnasau cadarnhaol ac aeddfed yn y sector drwy sefydlu a chynnal:**

- 5.1 perthynas waith gynhyrchiol gydag ymgynghorydd proffesiynol ETS, gan gynnwys cefnogi gwaith yr ymgynghorydd
- 5.2 perthynas ragweithiol gydag aelodau ETS a'u sefydliadau perthnasol, a gydag amrywiaeth briodol o asiantaethau lleol, cenedlaethol, y DU ac Iwerddon
- 5.3 perthnasau rhagweithiol gyda chyflogwyr a gweithwyr yn y sector
- 5.4 perthynas ragweithiol gydag aelodau a staff Llywodraeth Cymru a CLILC
- 5.5 rhaglen waith flynyddol ar gyfer ETS Cymru
- 5.6 perthynas waith gynhyrchiol gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (EWC), gan gynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd ble bo angen, rhoi cyngor ynghylch cymwysterau gwaith ieuenctid (ac unrhyw newidiadau i'r fath gymwysterau), rhoi gwybod i'r Cyngor am ddatblygiadau perthnasol yn y gweithlu a hwyluso mynediad i'r gofrestr gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid proffesiynol
- 5.7 gweithdrefnau apelio a monitro priodol yn dilyn cwyn gan unigolyn neu sefydliad am y prosesau a ddefnyddir gan y panel i wneud penderfyniadau.

### **6. Safonau perfformiad**

## **Pwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru**

Bydd WLGA a Llywodraeth Cymru yn cadw golwg ar waith y cadeirydd a'r pwyllgor trwy:

- 6.1 targedau perfformiad fydd yn y cynllun busnes blynyddol;
- 6.2 arolygon o farn asiantaethau hyfforddi sydd ar waith yn y sector;
- 6.3 arolygon o farn cyflogwyr y sector;
- 6.4 gweithdrefnau gwerthuso sydd i'w cynnal bob hyn a hyn yn rhan o weithdrefnau cymeradwyo proffesiynol ac adolygu trwy gymheiriaid.

### **7. AELODAU'R PWYLLGOR**

Fel pob cylch arall sydd o dan adain WLGA, mae bwriad i argymhell meini prawf cynhwysol i bob asiantaeth sy'n penodi aelodau i'r pwyllgor er mwyn gofalu ei fod yn adlewyrchu amrywiaeth ieithyddol, diwylliannol a chenhedlig Cymru a gofalu bod carfanau nad oedden nhw wedi'u cynnwys o'r blaen yn cael eu cynrychioli.

### **8. GWAITH YSGRIFENYDDOL**

Bydd swyddog datblygu yn WLGA yn rhoi cymorth proffesiynol a gweinyddol i'r cadeirydd a'r pwyllgor.

### **9. AMODAU PENODI**

Bydd WLGA yn penodi'r cadeirydd yn ôl argymhellion panel dewis.

### **10. HYD Y CYTUNDEB**

3 blynedd fydd hyd y cytundeb yn y lle cyntaf er y bodd modd ei adnewyddu yn sgîl adolygiad boddhaol hyd at 6 blynedd ar yr amod bod Llywodraeth Cymru yn parhau i'w ariannu.

### **11. PWY DDYLAI YMGEISIO?**

Dylai ymgeiswyr fod wedi ymddwyn bob amser mewn modd fydd yn cadw hyder y cyhoedd.

Dylai pob ymgeisydd ddatgan yn arbennig a yw'n gwybod am unrhyw beth yn ei fywyd preifat neu broffesiynol fyddai'n dwyn cywilydd arno neu ar WLGA pe bai'n dod i'r amlwg ar ôl ei benodi.

Rhaid i bob aelod lenwi datganiad am fuddiannau allai wrthdaro adeg ei benodi, a diweddarau'r datganiad hwnnw bob blwyddyn.

## **Pwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru**

### **12. FAINT O AMSER SYDD I'W ROI?**

Bydd angen gweithio o leiaf 4 diwrnod y mis. Fe fydd y pwyllgor yn cwrdd o leiaf deirgwaith y flwyddyn.

### **13. BLE BYDD Y CYFARFODYDD?**

Yn y canolbarth y bydd y pwyllgor yn cwrdd fel arfer, er y bydd gofyn i deithio ledled Cymru a'r DG a'r tu hwnt ar adegau.

### **14. CYFLOG**

Bydd y cadeirydd yn cael £225 y diwrnod hyd at uchafswm o 48 diwrnod bob blwyddyn.

Mae modd hawlio treuliau teithio a threuliau rhesymol eraill o ganlyniad i weithio dros y pwyllgor, a hynny yn ôl terfynau cydnabyddedig.

### **15. CYMORTH I AELODAU ANABL**

Byddwn ni'n gwneud pob ymdrech resymol i helpu aelodau anabl i gyflawni eu dyletswyddau.

### **16. HYFFORDDIANT CYFLWYNO**

O gael eich penodi, bydd gofyn ichi gymryd rhan mewn broses gyflwyno y cytunir arni cyn pen tri mis.

### **17. DEWIS**

Bydd WLGA yn penodi'r cadeirydd yn ôl ei hamodau a'i thelerau arferol. Polisi WLGA yw hybu a chymathu cyfleoedd cyfartal ym mhob rhan o'i gwaith, gan gynnwys penodi pobl i gyrff cyhoeddus. Mae'n croesawu ceisiadau o blith y rhai sydd heb eu cynrychioli'n llawn ar hyn o bryd megis merched, pobl anabl a phobl o dras leiafrifol ac yn annog pobl mewn carfanau o'r fath i gyflwyno ceisiadau. Bydd egwyddorion tegwch a chystadlu agored ar waith a bydd WLGA yn penodi ymgeiswyr yn ôl eu rhinweddau.

### **18. DYDDIAD DECHRAU**

## **Pwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru**

1<sup>af</sup> Medi 2019, gan ddisgwyl i'r cadeirydd lywio ei gyfarfod cyntaf fis Hydref 2019.

### **19. CYFLWYNO CAIS**

Rhaid cyflwyno cais trwy lenwi'r ffurflen sydd wedi'i hamgáu. Dylech chi roi tystiolaeth o'r modd mae'ch profiad yn gweddu i bob un o ofynion y swydd, gan roi enghreifftiau o'r hyn rydych chi wedi'i wneud drwy gydol eich oes. Cewch chi nodi hynny naill ai ar y ffurflen gais neu ar dudalennau ychwanegol.

Mae disgwyl y byddwn ni'n cyfweld ymgeiswyr ddiwedd mis Gorffennaf 2019. Yn ystod y cyfweiliad, efallai y bydd gofyn ichi roi cyflwyniad byr.

### **20. DYDDIAD CAU**

Rhaid cyflwyno pob cais erbyn 5 o'r gloch ar 1 Gorffennaf 2019. Fyddwn ni ddim yn ystyried ffurflenni cais sy'n cyrraedd wedi hynny.

### **21. CYFWELIADAU**

Bydd cyfweiliadau ar 29 Gorffennaf 2019.

### **22. RHAGOR O WYBODAETH AC YMHOLIADAU**

Mae rhagor o fanylion am ymgeisio gan Rheolwr Adnoddau Dynol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Tŷ Llywodraeth Leol, Rhodfa Drake, Caerdydd CF10 4LG. Ffôn: 029 20 468600. Ebst: [recruitment@wlga.gov.uk](mailto:recruitment@wlga.gov.uk)

Mae rhagor o wybodaeth am y pwyllgor gan Liz Rose – 07717 378932 neu [elizabeth.rose@wlga.gov.uk](mailto:elizabeth.rose@wlga.gov.uk)